
# Llinell Amser Dylan Thomas

*(Ymarfer darllen)*

| | | |
|---|---|---|
| **1914**<br>*Hydref 27* | 27 Hydref: Dylan Marlais Thomas yn cael ei eni yn 5 Cwmdonkin Drive, Uplands, Abertawe.<br>Chwaer hŷn: Nancy Marles Thomas.<br>Rhieni: David John a Florrie Thomas (y ddau o Sir Gaerfyrddin, roedd D.J. Thomas yn uwch Athro Saesneg yn Ysgol Ramadeg Abertawe). |  |
| **1925** | Ysgol gynradd: 'Dame School' Mrs Hole yn Mirador Crescent.<br>Dechreuodd Dylan yn Ysgol Ramadeg Abertawe. | |
| **1926** | Ennill y wobr gyntaf am redeg milltir yn Ysgol Ramadeg Abertawe.<br>Nid oedd yn rhagori yn ei waith academaidd ond roedd yn actor da iawn ac yn dda am ysgrifennu creadigol yn Saesneg. | |
| **1931** | Daeth Dylan yn ohebydd ifanc gyda'r *South Wales Daily Post*. (Yn ddiweddarach newidiodd hwn ei enw'n *South Wales Evening Post*). |  |
| **1932** | Ymunodd Dylan â chwmni theatr 'Swansea Little Theatr Company', yn y Mwmbwls. Bu'n actio mewn nifer o gynyrchiadau.<br><br>Rhagfyr: Gadawodd Dylan y *South Wales Daily Post* i weithio'n llawn amser ar ei farddoniaeth.<br><br>Daeth yn ffrindiau gyda chriw o ddynion talentog o Abertawe a oedd yn cwrdd yng nghaffi KARDOMAH.<br><br>Criw'r Kardomah oedd: Vernon Watkins (bardd), Daniel Jones (cyfansoddwr), Alfred Janes (arlunydd), John Prichard, Tom Warner, Charlie Fisher, Mervyn Levy (arlunydd) a Ronald Cour (arlunydd). |  |

| | | |
|---|---|---|
| **1934** | Tachwedd: Symudodd Dylan i Lundain.<br><br>Rhagfyr: Cyhoeddwyd *18 Poems*, llyfr o gerddi cyntaf Dylan. |  |
| **1937** | 11 Gorffennaf: Priododd Dylan a Caitlin Macnamara yn Penzance, Cernyw. | |
| **1938** | Mai: Symudodd Dylan a Caitlin i Talacharn i fyw. |  |
| **1939** | 30 Ionawr: Ganwyd eu mab cyntaf Llewelyn Edwouard Thomas. |  |
| **1940** | Gorffennaf: Gadawodd Dylan a Caitlin Dalacharn a mynd i Lundain.<br><br>Medi: Dechreuodd Dylan weithio i Strand Films fel sgriptiwr ffilmiau propaganda. | |
| **1943** | 3 Mawrth: Ganwyd Aeronwy Bryn Thomas, eu hail blentyn, yn Llundain. |  |
| **1944** | Medi: Symudodd Dylan, Caitlin a'r plant i Gei Newydd, Ceredigion.<br><br>Dechreuodd Dylan arbrofi â chymeriadau ar gyfer *Under Milk Wood*, un o'i weithiau enwocaf (a gyfieithiwyd gan T. James Jones: *Dan y Wenallt*). | |
| **1949** | Mai: Symudodd Dylan, Caitlin a'r teulu i'r 'Boathouse' yn Nhalacharn a symudodd ei rieni i dŷ gyferbyn â Gwesty Brown's yn Nhalacharn.<br><br>24 Gorffennaf: Ganwyd Colm Garan Hart Thomas<br><br>Roedd Dylan  yn ysgrifennu yn y "Writing Shed". Roedd edrych dros y môr a'r tawelwch yn ei helpu i |  |

| | | |
|---|---|---|
| | ysgrifennu. | |
| **1950** | 20 Chwefror: Hedfanodd Dylan i Efrog Newydd i ddechrau ar ei daith gyntaf yn UDA.<br><br>1 Mehefin: Dychwelodd Dylan i Brydain ar long *Queen Elizabeth* ar ôl rhoi o leiaf 39 darlleniad a darlith ledled UDA a Chanada. |  |
| **1953** | 21 Ebrill: Gadawodd Dylan am Efrog Newydd i ddechrau ar ei drydedd daith yn UDA.<br><br>3 Mehefin: Dylan yn dychwelyd i Lundain.<br><br>19 Hydref: Gadawodd Dylan am Efrog Newydd i ddechrau ei bedwaredd daith, yr un olaf, yn UDA.<br><br>29 Hydref: Achlysur cyhoeddus olaf Dylan - darlleniad amser cinio yn City College, Efrog Newydd.<br><br>5 Tachwedd: Cwympodd Dylan i'r llawr yng Ngwesty Chelsea, Efrog Newydd.<br><br>9 Tachwedd: Bu farw Dylan yn Ysbyty St Vincent's a daeth Caitlin â'i gorff yn ôl i Dalacharn.<br><br>25 Tachwedd: Angladd Dylan yn Nhalacharn. |  |
| **1954** | 25 Ionawr: Darllediad cyntaf y BBC o *Under Milk Wood* - gyda Richard Burton yn serennu fel y Llais Cyntaf. |  |